



Cynllun Pensiwn
Llywodraeth Leol



Cronfa Bensiynau
CLWYD
Pension Fund

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Cynyddu Eich Buddion Pensiwn

Ebrill 2025

Tudalen Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY)	3
Opsiynau pan fyddwch yn ymddeol o'r CPLIL.....	3
Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol	4
Opsiynau Eraill	5
Lwfans Blynnyddol	5
Ble allwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth?	5
Ymwadiad.....	6

Cyflwyniad

Fel aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL), rydych eisoed yn talu cyfraniadau o'ch cyflog i Gronni Pensiwn. Fodd bynnag, mae dwy ffordd y gallwch gynyddu eich buddion pensiwn yn y CPLIL. Gelwir un yn gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY) a'r llall yn gyfraniadau pensiwn ychwanegol (CPY).

Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY)

Mae CGY yn gronfa o arian y gallwch gyfrannu ato a'i Gronni i roi buddion ychwanegol i chi ochr yn ochr â'ch buddion CPLIL. Mae'r cyfraniadau yn cael eu tynnu o'ch cyflog cyn i'ch treth gael ei thynnu. Felly, os ydych chi'n drethdalwr 20% ac yn dymuno rhoi £100 yn eich cronfa CGY bob mis, £80 yn unig y bydd yn rhaid i chi ei dalu, oherwydd bydd yr £20 sy'n weddill yn dod o'r gostyngiad yn y dreth. Mae gennych eich cyfrif CGY eich hun a gallwch ddewis sut i fuddsoddi eich cronfa arian gyda'n darparwr CGY: **The Prudential**.

Mae CGY yn ffordd hyblyg o gynyddu eich buddion pensiwn. Gallwch dalu hyd at 100% o'ch tâl pensiynadwy (heb y didyniadau statudol, fel yswiriant gwladol a chyfraniadau pensiwn) i'ch cynllun CGY. Gallwch hefyd gynyddu neu leihau'r cyfraniadau yr ydych am eu talu, yn ogystal â newid sut mae'r arian yn eich cynllun CGY yn cael ei fuddsoddi.

Os ydych am sefydlu CGY, gallwch gysylltu â'r Prudential naill ai drwy fynd i'w gwefan: www.pru.co.uk/localgov (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg) neu eu ffonio ar **0345 6000 343** i ofyn am ffurflen i sefydlu CGY.

Os byddwch yn marw mewn gwasanaeth, bydd eich cynllun CGY yn cael ei ddefnyddio fel grant marwolaeth ychwanegol a'i dalu i'ch buddiolwr/buddiolwyr, yn unol â'ch Mynegiant o Ddymuniad. Os nad ydych wedi mynegi dymuniad, bydd yr arian yn cael ei dalu i'ch Ystâd. Gallwch ddiweddarau eich mynegiant o ddymuniad drwy eich cyfrif [Hunanwasanaeth i Aelodau](#) neu gallwch lenwi ffurflen Mynegiant o Ddymuniad. Mae'r ffurflen i'w chael yn yr **adran ffurflenni ac adnoddau** ar ein gwefan neu gallwch gysylltu â ni a gofyn am i ffurflen gael ei phostio atoch.

Mae gan eich cyflogwr y disgresiwn i dalu tuag at eich CGY hefyd. Gelwir hyn yn Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol lle Rhennir Costau. Bydd angen i chi wirio gyda'ch cyflogwr i weld beth yw eu polisi ac os ydynt yn cynnig Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol lle Rhennir Costau.

Opsiynau pan fyddwch yn ymddeol o'r CPLIL

- Gallwch ddefnyddio eich cynllun CGY i brynu pensiwn blynyddol ychwanegol yn y CPLIL
- Mae'n bosibl y gallwch gymryd hyd at 100% o'ch cynllun CGY fel arian parod di-dreth os nad yw gwerth eich CGY yn mynd â chi dros derfynau Cyllid a Thollau EM

Mae Cyllid a Thollau EF yn rhoi terfyn ar faint o gyfandaliad di-dreth y gallwch ei gymryd pan fydd eich pensiwn yn cael ei dalu i chi. Gelwir y terfyn hwn yn lwfans cyfandaliad. Ar hyn o bryd, y cyfandaliad mwyaf yw'r isaf o'r canlynol:

- 25% o werth cyfalaf eich buddion

- £268,275*
- £268,275* yn llai na chyfanswm y cyfandaliadau rydych chi wedi'u cymryd eisoes

*Os oes gennych chi warchodaeth Lwfans Oes ddilys, o bosibl y gallech gymryd cyfandaliad sy'n fwy na £268,275.

Bydd yn gyfandaliad di-dreth fel arfer, ond os ewch chi dros derfyn y lwfans cyfandaliad, bydd rhaid i chi dalu treth ar y swm uwchlaw'r terfyn ar eich cyfradd ymylol.

Os oes gennych CGY ac eir y tu hwnt i'r terfyn hwn, mae'n golygu na allwch gymryd 100% o'ch cynllun CGY fel arian parod di-dreth. Rhaid defnyddio'r swm sy'n weddill i brynu swm ychwanegol o bensiwn blynyddol yn y CPLIL neu rywle arall.

Os yw'r opsiwn ar gael, efallai y gallwch ddefnyddio'ch cynllun CGY i brynu blwydd-dal gan y darparwr CGY mewnol neu unrhyw ddarparwr arall o'ch dewis. Mae blwydd-dal yn swm penodol o arian a delir bob blwyddyn tan ddigwyddiad penodol, megis marwolaeth.

Darllenwch ein taflen ffeithiau ar Gymryd Cyfandaliad Arian Parod Di-dreth pan fyddwch yn ymdeol. Gallwch ddod o hyd iddo yn yr **adran ffurflenni ac adnoddau** ar ein gwefan.

Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol

Mae Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol yn contract i brynu swm ychwanegol o bensiwn blynyddol o'ch cronfa CPLIL. Ar 1 Ebrill 2014, gosodwyd terfyn o £6,500 y flwyddyn i gapio swm y pensiwn blynyddol y gallwch ei brynu yn y CPLIL. Mae'r terfyn hwn wedi'i brawfesur o chwyddiant bob blwyddyn ers hynny. Dangosir y terfyn presennol ar y gyfrifiannell CPY ar-lein. Gallwch ddefnyddio'r ddolen isod i gyfrifo cost CPY:

<https://www.lgpsmember.org/help-and-support/tools-and-calculators/buy-extra-pension-calculator/> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)

Gallwch chi ddewis prynu'r pensiwn ychwanegol drwy dalu cyfandaliad untro neu drwy wasgaru'r gost dros nifer penodol o flynyddoedd llawn (isafswm o flwyddyn). Gellir cymryd y cyfraniadau hyn o'ch cyflog yn yr un ffordd â'ch cyfraniadau pensiwn. Maent hefyd yn cael eu cymryd cyn i'ch treth gael ei chyfrifo, felly os ydych yn talu treth, byddwch yn derbyn rhyddhad treth yn awtomatig ar eich cyfraniadau.

Os byddwch yn talu drwy wneud cyfandaliad untro, gallwch wneud hynny naill ai drwy ddidyniad o'ch cyflog neu drwy wneud taliad yn uniongyrchol i'ch cronfa CPLIL. Os ydych yn talu'n uniongyrchol i'r gronfa, bydd angen i chi siarad â Chyllid a Thollau EM i drefnu i'ch rhyddhad treth gael ei adennill, gan na fydd hwn yn cael ei dalu'n ôl i chi gan eich cronfa CPLIL.

Bydd unrhyw bensiwn ychwanegol a brynir yn cael ei ychwanegu at eich pensiwn blynyddol am weddill eich oes. Os byddwch yn marw, ni fydd unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol yn daladwy i'ch goroeswyr am y pensiwn ychwanegol a brynwyd. Dim ond pensiwn ychwanegol y mae'r CPY yn ei brynu i chi.

Os byddwch yn hawlio eich pensiwn cyn yr oedran ymddeol arferol, bydd gostyngiadau ymddeoliad cynnar yn cael eu cymhwyso i'ch pensiwn a'r pensiwn ychwanegol a brynwyd gennych drwy eich CPY.

Mae cost y CPY yn seiliedig ar eich oedran a'ch rhyw gan ddefnyddio ffactorau a ddarparwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth.

Efallai y bydd eich cronfa CPLIL yn gofyn i chi gael archwiliad meddygol gan Ymarferydd Meddygol Cofrestredig i gael tystysgrif, ar eich cost eich hun, i gadarnhau eich bod mewn 'iechyd rhesymol dda' cyn y gallwch ddechrau talu CPY.

Opsiynau Eraill

Mae trefniadau pensiwn eraill ar gael hefyd, sydd ar wahân i'ch pensiwn CPLIL. Mae'r rhain yn cynnwys cyfrannu at gynllun CGY Annibynnol neu gynllun pensiwn personol / cynllun pensiwn cyfranddeiliaid.

Gyda CGY Annibynnol, fel arfer dim ond 25% o'r gronfa CGY y gallwch ei gymryd fel arian parod di-dreth a'r gweddill fel blwydd-dal, felly maent yn gweithio'n wahanol i CGY CPLIL. Mae rhagor o wybodaeth am yr opsiynau eraill hyn ar gael mewn banciau, cymdeithasau adeiladu neu gwmnïau yswiriant.

Lwfans Blynyddol

Os ydych yn ystyried cynyddu eich pensiwn CPLIL yn sylweddol neu os ydych yn ystyried gwneud taliadau CGY mawr bob blwyddyn dreth, gallai olygu y gallech fynd dros derfyn y lwfans blynyddol.

Eich lwfans blynyddol yw'r swm y gall gwerth eich buddion pensiwn gynyddu mewn blwyddyn dreth heb i chi orfod talu treth. Os yw gwerth eich cynilion pensiwn chi rhwng 6 Ebrill a 5 Ebrill yn fwy na'ch lwfans blynyddol, bydd y swm dros ben yn cael ei drethu fel incwm. Mae'r gwiriad lwfans blynyddol hwn yn cynnwys cynilion pensiwn y tu allan i'r CPLIL.

Y terfyn lwfans blynyddol cyfredol yw £60,000 felly nid yw'n cael effaith ar y mwyafrif o aelodau'r cynllun pensiwn.

Efallai y byddwch am geisio cyngor ariannol annibynnol am hyn, gan na all eich cronfa CPLIL roi unrhyw gyngor.

Ble allwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig. Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd:

Ffôn: 01352 702875

E-bost: pensiynau@siryfflint.gov.uk

Cyfeiriad: Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Gwefan: <https://cronfabensiynaclwyd.org.uk>

Ymwadiad

Nid yw Cronfa Bensiynau Clwyd yn gallu darparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ôl darllen y daflen ffeithiau hon, efallai y byddwch yn dymuno cael cyngor ariannol annibynnol i wneud penderfyniad cytbwys.

Efallai y gall y cyrff hyn eich helpu:

Unbiased:

<https://unbiased.co.uk> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Helpwr Arian:

<https://www.moneyhelper.org.uk/cy/getting-help-and-advice/financial-advisers/choosing-a-financial-adviser?source=mas>



cronfabensiynaclwyd.org.uk

Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.